Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona (PALG)

Microsoft Teams

15 Mehefin 2022

Yn bresennol	
Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Lee Jones (LJ)	Prif Weithredwr
Lisa Morgan (LM)	Swyddog Polisi
Claire Perrin (CP)	Swyddog Polisi
Jayne Woodward (JW)	Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth
Heddlu De Cymru	
Jane Carter	Rheolwr Prevent - Plismona Gwrthderfysgaeth Cymru
Alun Davies	Uned Gyswllt yr Heddlu
Uwch-arolygydd Martyn Stone (MS)	Pennaeth Plismona Lleol a Sicrwydd
Aelodau PALG	
Liz Baker (LB)	Barnardos
Grace Krause (GK)	Anabledd Dysgu Cymru
Sara Kirkpatrick (SK)	Cymorth i Ferched Cymru
Nicky Nijjer (NN)	Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST)
Nkechi Allen Dawson (NAD)	Race Council Cymru
Reynette Roberts (RR)	Oasis Caerdydd
Dave Vice (DV)	Adferiad Recovery
Aelodau Annibynnol	
Alex Drummond (AD) **(CADEIRYDD)**	Aelod Annibynnol
Soraya Kelly (SK)	Aelod Annibynnol
Samar Small (SS)	Aelod Annibynnol
Amy Taylor (AT)	Aelod Annibynnol

	Eitem	Cynnwys
1.	**Croeso a Chyflwyniadau**	1.1 Croesawodd AD y rhai a oedd yn bresennol a nododd ymddiheuriadau.
2.	**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**	2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a chytunwyd nad oedd unrhyw gamau gweithredu yn codi ohono.
3.	**Gwrthderfysgaeth (Rhaglen 'Prevent) –** Cyflwyniad a Thrafodaeth	3.1 Darparodd JC drosolwg o'r 'Rhaglen Prevent' gan adran Plismona Gwrthderfysgaeth Cymru. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys trosolwg o strategaeth CONTEST, a gafodd ei rhannu'n 4 maes allweddol, gan gynnwys Prevent. Rhoddodd JC grynodeb manwl o raglen Prevent sydd ar waith er mwyn atal pobl rhag cael eu radicaleiddio neu gefnogi eithafiaeth dreisgar.

		3.2 Siaradodd JC am yr heriau a'r ideolegau a wynebodd heddlu gwrthderfysgaeth yn y byd rhithiol, ac yn enwedig drwy gyfryngau cymdeithasol a chwarae gemau a sut y defnyddiwyd y rhain i ysgogi propaganda a recriwtio unigolion, gan gynnwys pobl ifainc, mewn i sefydliadau a grwpiau eithafol. 3.3. Awgrymodd SK y dylid gwneud mwy i gyrraedd ac addysgu rhieni ar beryglon radicaleiddio drwy chwarae gemau oherwydd efallai nad yw hyn yn gyfarwydd. 3.4 Gofynnodd LJ beth oedd y safbwynt ar allu'r heddlu, i gadw i fyny â'r newidiadau hyn mewn technoleg ac annog diwydiannau preifat i gefnogi plismona. Teimlodd JC bod angen buddsoddi mwy mewn adnoddau i gadw i fyny gydag amrywiol blatfformau cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig rhai newydd ac ymylol. Rhannodd JC ei bod hi'n gweithio ochr yn ochr ag ysgolion sy'n cynnal gweithdai yng Nghymru ynghylch codi ymwybyddiaeth a diogelwch ar-lein. Teimlai DV ei bod yn bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng iechyd meddwl difrifol a salwch meddwl. 3.5 Teimlai SK bod dechrau'r cyflwyniad yn ddwys ar eithafiaeth Islamaidd a holodd a oedd mwy o waith yn cael ei wneud i wrthwynebu naratif y cyhoedd bod Prevent fel arfer yn dilyn agenda gwrth-Fwslimaidd. 3.6 Teimlai NN hefyd bod y cyflwyniad wedi dechrau'n negyddol ac wedi dangos safbwyntiau wedi dyddio o ganfyddiadau negyddol o Fwslimiaid a holodd a oedd y sleidiau a'r fideos yn cael eu defnyddio i gyflwyno i sefydliadau proffesiynol. Holodd NN hefyd a oedd y system yn cymryd un set o eithafiaeth fwy o ddifrif nag eraill a theimlai y gallai'r cyflwyniad gyflwyno'r negeseuon anghywir am ei fod wedi dyddio. 3.6 Cwestiynodd NAD sut y cefnogwyd unigolion a oedd yn agored i gael eu radicaleiddio a sut yr aseswyd pobl ag anghenion niwroamrywiol. Rhannodd JC bod asesiad agored i niwed wedi cael ei gynnal gan 'Channel', a oedd dan arweiniad amlasiantaeth. Dywedodd JC bod panel asesu niwroamrywiaeth yn cael ei dreialu yng Nghymru, gan weithio gydag arbenigwr i asesu lle gall unigolion gael nodweddion awtistig. 3.7 Nododd JC rai o bryderon y grŵp am y cyflwyniad a byddai'n mynd â'r sylwadau yn ôl i'r tîm.
4.	Y diweddaraf am waith gyda ffoaduriaid Wcráin	4.1 Darparodd HJJ ddiweddariad cryno ar ran yr heddlu mewn perthynas â'r gweithgareddau parhaus i helpu i gefnogi ffoaduriaid Wcráin. Roedd tîm y Comisiynydd yn rhan o'r gweithgor a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd yn yr heddlu i gadw mewn cysylltiad â'r materion sy'n ymwneud â hyn. Dywedodd HJJ bod gwaith yn parhau rhwng Uned Gyswllt yr Heddlu a Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau ar gyfer swyddogion a staff mewn perthynas â delio ag adroddiadau a phrosesau ychwanegol ar waith i fonitro troseddau casineb mewn perthynas â ffoaduriaid. Dywedodd HJJ nad oedd unrhyw dueddiadau cyfredol na phryderon yn codi, ond bod y broses ar waith i ddiogelu'r ffoaduriaid petai angen. 4.2 Cyfeiriodd Alun Davies at y trosolwg diweddar o'r gwaith a oedd yn cael ei gyflawni, a dywedodd bod dros 5000 o fisâu wedi cael eu rhyddhau er mwyn i Wcreiniaid ddod mewn i Gymru. Rhannodd hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi seibiant dros dro ar geisiadau newydd am eu bod eisiau sicrhau bod y bobl a gafodd eu derbyn eisoes yn cael y gefnogaeth a'r gofal priodol. Roedd heriau sylweddol wrth chwilio am gartrefi tymor hir ar gyfer pobl yng Nghymru ac roedd Uned Gyswllt yr Heddlu yn gweithio gyda Llywodraeth

		Cymru i sefydlu arweiniad i awdurdodau lleol a gwesteiwyr, a oedd yn cael ei ddiweddaru ar y wefan yn rheolaidd.
5.	Cylch Gorchwyl Diwygiedig	5.1 Gofynnodd AD am unrhyw arsylwadau neu newidiadau yr hoffai unrhyw un ei wneud mewn perthynas â'r cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp. 5.2 Awgrymodd AD ychydig o newid i eiriad: - 'Aelodaeth – Sefydliadau partner o'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, yn ogystal ag aelodau annibynnol o'r gymuned sydd â diddordeb mewn cydraddoldeb, amrywiaeth, cymunedau, dioddefwyr trosedd, a/neu atal troseddau' i ddarllen fel 'dioddefwyr troseddau'. - 'cefnogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ei rôl craffu', i ddarllen fel 'ei/eu rôl'. - 'Bydd aelodau annibynnol o'r gymuned yn gwasanaethu am hyd at dair blynedd, cyn bod angen gwneud un cais pellach am gyfnod arall o dair blynedd' i ddarllen fel 'pellach'. 5.4 Trafododd AD y newid posibl i eiriad yn yr adan 'presenoldeb y panel ac adborth' a theimlai y gellid ei newid i adlewyrchu'r aelodau a all fynychu'n rheolaidd ac eraill a allai ddod i mewn yn unol â maes y pwnc. Teimlai SS y dylai aelodaeth y grŵp aros yn gyson ac nid mor hyblyg ag yr awgrymodd AD. Roedd hi'n teimlo ei bod yn bwysig bod aelodau'n mynychu'n rheolaidd ni waeth beth yw pwnc y cyfarfod. 5.5 Holodd SF a ellir cynnwys 'tegwch yn y gwaith' ar yr agenda mewn cyfarfod yn y dyfodol fel sy'n cael ei adlewyrchu yn y Cylch Gorchwyl. 5.6 Byddai HJJ yn rhoi ystyriaeth i'r awgrymiadau a wnaed yn y grŵp, gan gynnwys meddwl am y gwahaniaeth mewn safbwyntiau ynghylch presenoldeb. Yna byddai Cylch Gorchwyl Diwygiedig yn cael ei ddosbarthu. 5.7 Awgrymodd HJJ y byddai'r ddaliadaeth ar gyfer aelodau annibynnol yn dechrau o ddyddiad y cyfarfod hwn ac nid o ddyddiad penodi'r aelodau. Cytunwyd ar hyn.
6.	Diweddariadau gan Bartneriaid	6.1 Ni chafwyd unrhyw ddiweddariadau na sylwadau gan asiantaethau partner.
7.	Unrhyw Fusnes Arall	7.1 Diolchodd AD i'r aelodau am eu mewnbwn ac i Jane Carter am ei chyflwyniad.